Adran Gwaith a Phensiynau

# Lwfans Gweini

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **AA1WER** 04/23

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2



**Pwy all gael Lwfans Gweini**

Tudalen 5

3



**Ble rydych yn byw**

Tudalen 7

4



**Beth a gewch**

Tudalen 9

# Cynnwys

5




**Sut i wneud cais**

Tudalen 11

6



**Rhoi gwybod am newid yn eich anabledd neu'ch cyflwr iechyd**

Tudalen 14

7




**Mathau eraill o gymorth**

Tudalen 18

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Lwfans Gweini yn fudd-dal gan Adran Gwaith a Phensiynau.



Gallwch gael Lwfans Gweini os:

- Oes gennych anabledd a mae angen rhywun i ofalu amdanoch
- Ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

?

**Egluro oedran Pensiwn y Wladwriaeth**

Eich **oedran Pensiwn y Wladwriaeth** yw'r oedran ieuaf y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth.

Am fwy o wybodaeth am oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/state-pension-age

# 2 Pwy all gael Lwfans Gweini



Pan gyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch gael Lwfans Gweini os oes gennych anabledd corfforol neu feddyliol.



Gallwch gael Lwfans Gweini os yw'ch anabledd yn golygu bod angen cymorth neu oruchwyliaeth arnoch i ofalu drosoch chi'ch hun.

**6**
**mis**

Mae rhaid bod angen y cymorth hwn neu'r oruchwyliaeth hon arnoch ers 6 mis o leiaf.

Os yw'ch anabledd neu gyflwr iechyd yn newid, rhowch wybod i ni.

Ewch i **dudalen 14** o'r llyfryn hwn am fwy o wybodaeth.



Gallwch hawlio Lwfans Gweini hyd yn oed os nad ydych yn cael cymorth neu oruchwyliaeth.




Os ydych yn agosáu at ddiwedd eich oes, nid yw'r rheol 6 mis yn berthnasol.

Gallwch wneud cais am Lwfans Gweini ar unwaith.

?

**Eglurhad**

**Mae nesau at ddiwedd eich oes** yn golygu y gallai fod gennych lai na 12 mis i fyw.

Am fwy o wybodaeth ewch i [www.gov.uk/budd-daliadau-os-ydych-yn-derfynol-wael](www.gov.uk/budd-daliadau-os-ydych-yn-derfynol-wael)

# 3 Ble rydych yn byw



Mae rhaid eich bod yn byw ym Mhrydain Fawr pan wnewch eich cais.

Mae rhaid eich bod wedi byw ym Mhrydain Fawr am o leiaf 2 o'r 3 blynedd diwethaf.



Weithiau gallwch wneud cais y tu allan i Brydain Fawr.

Gallai hyn fod os ydych chi neu rywrai yn eich teulu yn y lluoedd arfog.




Os ydych yn byw mewn cartref gofal ac mae eich cyngor lleol yn talu tuag at y costau, ni allwch gael Lwfans Gweini.



Os ydych yn byw mewn cartref gofal ac rydych yn talu'r holl gostau, gallwch gael Lwfans Gweini.

I ddarganfod beth yw cyfraddau Lwfans Gweini, ewch i

[www.gov.uk/lwfans-gweini/beth-fyddwch-yn-ei-gael](www.gov.uk/lwfans-gweini/beth-fyddwch-yn-ei-gael)

Am wybodaeth am hawliau gwladolion o'r DU yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir i fudd-daliadau, ewch i

[www.gov.uk/guidance/benefits-and-pensions-for-uk-nationals-in-the-eea-or-switzerland](www.gov.uk/guidance/benefits-and-pensions-for-uk-nationals-in-the-eea-or-switzerland)

# 4 Beth a gewch

**4 wythnos**


Fel arfer telir Lwfans Gweini bob 4 wythnos.

**1 wythnos**

Mewn rhai amgylchiadau, gellir eich talu'n wythnosol.




Nid yw unrhyw gynilion neu fuddsoddiadau sydd gennych yn effeithio ar eich cais.




Mae gan Lwfans Gweini 2 gyfradd.

**Cyfradd is** a **chyfradd uwch**.



Mae'r gyfradd a gewch yn dibynnu ar faint o help neu gymorth sydd ei angen arnoch.

I ddarganfod mwy am beth yw cyfraddau Lwfans Gweini, ewch i

[www.gov.uk/lwfans-gweini/beth-fyddwch-yn-ei-gael](www.gov.uk/lwfans-gweini/beth-fyddwch-yn-ei-gael)

# 5 Sut i wneud cais




Mae angen i chi lenwi ffurflen sef **AA1W**.

I gael y ffurflen ar-lein, ewch i www.gov.uk Chwiliwch am **ffurflen AA1W**.




Gallwch lenwi'r ffurflen ar eich cyfrifiadur neu'ch llechen a'i hargraffu.



Gallwch argraffu ffurflen wag a'i llenwi â phen.



Anfonwch eich ffurflen wedi ei llenwi i:

**Freepost DWP Attendance Allowance**

Nid oes angen cod post na stamp.



I ofyn am gopi o'r ffurflen dros y ffôn.

Ffôn: **0800 731 0122**

Ffôn testun: **0800 731 0317**



Os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 731 0122**

Mae llinellau ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai galwch ddefnyddio gwasanaeth cyfnewid fideo.

Am ragor o wybodaeth ar sut i wneud cais, ewch i

www.gov.uk/lwfans-gweini/sut-i-wneud-cais

# 6 Rhoi gwybod am newid yn eich anabledd neu’ch cyflwr iechyd



Os bydd eich anabledd neu’ch cyflwr iechyd yn newid, mae’n bwysig iawn eich bod yn dweud wrth Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted â phosibl.




Gall newid yn eich anabledd neu’ch cyflwr iechyd effeithio ar faint o Lwfans Gweini a gewch.



Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich anabledd neu’ch cyflwr iechyd, efallai bydd rhaid i chi fynd i’r llys neu dalu dirwy.

**Cysylltwch â llinell gymorth Lwfans Gweini cyn gynted â phosibl os:**



Yw lefel yr help neu'r cymorth sydd ei angen arnoch yn newid.



Yw'ch cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn newid.



Ewch i mewn i'r ysbyty.



Ewch i mewn i gartref gofal.



Ewch i'r carchar.




Yw'ch enw, eich cyfeiriad, neu'ch manylion banc yn newid.




Nad ydych am hawlio'ch budd-dal mwyach.



Yw manylion eich meddyg yn newid.




Ffoniwch linell gymorth Lwfans Gweini:

Ffôn: **0800 731 0122**


Ffôn testun: **0800 731 0317**

# 7 Mathau eraill o gymorth



Os cewch Lwfans Gweini, efallai gallech gael cymorth ariannol arall fel Budd-dal Tai.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/budd-dal-tai](http://www.gov.uk/budd-dal-tai)




Efallai gallech gael Credyd Pensiwn.

Mae Credyd Pensiwn yn rhoi arian ychwanegol i bobl sydd wedi cyrraedd oedran pensiynadwy ac mae ganddynt incwm isel.

Am fwy o wybodaeth Hawdd ei Darllen ar Gredyd Pensiwn, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read Pension Credit**.




Efallai gallech gael Gostyngiad Treth Gyngor.

Mae hyn yn golygu byddwch yn talu llai o Dreth Gyngor.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/apply-council-tax-reduction